Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. **Datganiad o Fwriad Iechyd a Diogelwch**

1.1 Amcan y Cynulliad yw gwarchod ei gyflogeion, ei gontractwyr ac ymwelwyr rhag salwch, anaf sy'n ymwneud â'r gwaith, neu afiechyd, yn ogystal â hyrwyddo lles y cyflogai a darparu amgylchedd waith ddiogel.

1.2 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr wedi ymrwymo i sicrhau mai'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer iechyd a diogelwch yw'r lefel isaf a gyflawnir o fewn y Cynulliad ac y bydd ein perfformiad iechyd a diogelwch yn cael ei wella'n barhaus.

1.3 Bydd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn gosod amcanion iechyd a diogelwch y mesurir perfformiad y Cynulliad yn eu herbyn ac maent wedi ymrwymo i gynllunio, mesur, adolygu ac archwilio eu system rheoli iechyd a diogelwch.

1.4 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr wedi ymrwymo i ddarparu arweiniad o ran iechyd a diogelwch drwy bob lefel reoli ac maent yn cydnabod bod cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yr un mor berthnasol â chyfrifoldebau rheoli eraill.

1.5 Bydd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn sicrhau bod gan y rheini sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch y wybodaeth, y cyfarwyddyd a'r hyfforddiant angenrheidiol fel y gallant weithredu eu cyfrifoldebau a chydymffurfio â'r holl ofynion a chodau ymarfer statudol.

1.6 Er bod y cyfrifoldeb cyffredinol am iechyd a diogelwch yn gorwedd gyda'r lefel rheoli uchaf, mae gan bob unigolyn ddyletswydd i gymryd gofal rhesymol o'i iechyd a'i ddiogelwch, a diogelwch eraill y gall ei weithredodd neu ei ddiffyg gweithredu effeithio arnynt. Mae llwyddiant Polisi Iechyd a Diogelwch y Cynulliad yn ddibynnol ar gydweithrediad pob cyflogai.

1.7 Caiff y polisi ei fonitro a'i arolygu'n rheolaidd ac, os yw'n angenrheidiol, caiff ei ddiwygio o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol neu sefydliadol.

Claire Clancy

Claire Clancy

Prif Weithredwr a Chlerc Dyddiad: